Cyngor Cymuned Mechell Community Council

Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 10/7/2017
Minutes of the meeting held on Monday evening 10/7/2017

Presennol / *Present*: Mrs Elin Wynne, Mr Tony Jones, Mr Jac Jones, Mr Adrian Parry, Mr Owen Mostyn Williams

Cynghorwyr Sirol / *County Councillors*:

Yn Bresennol / *In Attendance*: Helen Mai Hughes (Clerc/*Clerk*), Delyth Owen (Horizon)

1 Croeso ac Ymddiheuriadau / *Welcome and Apologies*

1.1 Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
The Chair welcomed everyone to the meeting.

1.2 Derbynwyd ymddiheuriadau gan Mr Richard Hughes, Mrs Elaine Rowlands, Mrs Mary Hughes, Cynghorydd John Griffith a Mr Richard Foxhall (Horizon).
Apologies were received from Mr Richard Hughes, Mrs Elaine Rowlands, Mrs Mary Hughes, Councillor John Griffith and Mr Richard Foxhall (Horizon).

2 Datgan Diddordeb / *Declaration of Interest*

Dim / *None.*

3 Materion Horizon / *Horizon Matters*

Croesawyd Delyth Owen i'r cyfarfod. Cafwyd diweddariad byr ar ddatblygiadau Horizon. Derbynwyd gwybodaeth fod cyllid ar gael i grŵpiau yn y gymuned (hyd at £5,000 – gweler y linc isod).
http://www.horizonnuclearpower.com/community-support
Delyth Owen was welcomed to the meeting. A brief update was given on the latest Horizon developments. Information was received that there was funding available for group in the community (up to £5,000 – see link above)

4 Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / *Minutes of the Last Meeting*

Derbynwyd cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned ar 12/6/2017 fel rhai cywir. Cynigwyd gan Adrian Parry, eiliwyd gan Jac Jones.
The minutes of the Annual General Meeting and the Community Council meeting on the 12/6/2017 were accepted as a true record. Proposed by Adrian Parry, seconded by Jac Jones.

5 Materion yn codi o'r cofnodion / *Matters arising from the minutes*

5.1 Eitem 6.1 – Pan yn gyrru cwynion am gyflwr lonydd, penderfynwyd bod angen i'r Clerc yrru copi i Bennaeth yr Adran hefyd.
Item 6.1 – In sending complaints about the condition of roads, it was decided that the Clerk should also send a copy to the Head of Department.

5.2 Eitem 6.2 – Plas Eithin a Tir Comin, Mynydd Mechell – Cafwyd trafodaeth brŵd ynglyn a'r mater yma. Os nad yw'r Cyngor Cymuned yn fodlon gyda'r canlyniad, mi fydd y mater yn cael ei roi i'r Ombwdsman.
Gweithred – Y Clerc i wneud llythyr a ebostio CSYM a copio Cynghorydd Llinos Medi Huws.
Item 6.2 – Plas Eithin and Common Land, Mynydd Mechell – A lively discussion was had regarding this matter. If the Community Council are not satisfied with the outcome, it will be referred to the Ombudsman.
Action – The Clerk to write a letter and email it to the IOACC and Councillor Llinos Medi Huws.

5.3 Eitem 6.3 – Derbynwyd ebôst gan CSYM yn egluro bod diffyg cyllid i wneud gwelliannau. Nad oedd Rhaglen Waith CSYM wedi ei atodi yn yr ebôst.
Gweithred – Jac Jones am ysgrifennu ebôst i ofyn am gopi o'r rhaglen waith ac eglurhad o'r ebôst.
Item 6.3 – An email was received from IOACC explaining that there was a lack of finance to make improvements. The IOACC Works Programme was not attached to the email.
Action – Jac Jones to write an email to ask for a copy of the Works Programme and an explanation for the email.

6 Ffyrdd / *Highways*

6.1 Derbynwyd cwynion am:
- Twll yn y lon wrth Crô – wrth arwydd Carreglefn tuag at Maes Teg.
- Tyllau yng ngheg lon wrth Fferm Sarn.
- Cefn Roger - tyllau

Complaints were received regarding:
- *Hole in the road by Crô – near the Carreglefn sign towards Maes Teg.*
- *Holes on the entrance road to Sarn Farm.*
- *Cefn Roger – holes.*

6.2 Cafwyd trafodaeth brŵd ynglyn a cyflwr y lonydd yn yr ardal. Gofynnwyd pam bod CSYM wedi gwario arian ar ddau arwyddo 'Plant yn Chwarae' ger Gilfach Glyd, Llanfechell, pan nad oes plant yn chwarae yno, does dim ysgol na maes chwarae. Gofynnwyd pam mae arian wedi ei wastraffu ar hyn a dim wedi ei ddefnyddio i drîn lonydd?
Gweithred – Y Clerc i ysgrifennu i'r Adran Briffyrdd.
A lively discussion was had regarding the condition of roads in the area. It was asked why the IOACC had spent money on two 'Children Playing' signs near Gilfach Glyd, Llanfechell, when there are no children playing near there, no school and no playground. It was asked why money was wasted on this when it could have been used to improve the roads?
Action – The Clerk to write to the Highways Department.

7 Gohebiaethau / *Correspondence*

7.1 Derbynwyd ebŷst gan / *Emails were received from:*

Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith – diweddariad mis Mehefin 2017.
Executive's forward work programme – June 2017 update.

CSYM – Cynllun y Cyngor 2017-2022 – Ymgynghoriad.
IOACC – 2017-2022 Council Plan – Consultation.

CSYM – Pencampwyr iaith Gymraeg – Fforwm Cyswllt 13.06.2017 gan gynnwys cyflwyniadau a gwybodaeth pellach.
IOACC – Welsh Language Champions Liaison Forum 13.06.2017 including presentations and further information.

Bwletin Un Llais Cymru – Mehefin 2017.
One Voice Wales Bulletin – June 2017.

Llywodraeth Cymru - Band Eang – Eich profiad chi.
Welsh Government – Broadband – Your experience.

Datganiad gan Horizon: Horizon yn Cyhoeddi nawdd i Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017.
Horizon Press Release: Horizon announces sponsorship of the Ynys Môn Eisteddfod 2017.

Derbynwyd adroddiadau ROSPA am maesydd chwarae Maes Martin, Llanfechell a Maes Coffa, Carreglefn. Gofynnwyd Adrian Parry pam fod nodiadau ar gyfer y sleid yn dweud "Paneli yn rhydu gyda ochrau miniog" pan mae'r sleid yn newydd.

Gweithred – Y Clerc i ofyn i ROSPA am eglurhad.

The ROSPA reports for Maes Martin, Llanfechell and Maes Coffa, Carreglefn playing fields were received. Adrian Parry asked why notes for the slide stated "Panels rusting with sharp edges" when the slide is brand new.

Action – The Clerk to ask ROSPA for an explanation.

Llywodraeth Cymru - Gwasanaethau addas ar gyfer y Dyfodol – ansawdd a llywodraethu ym maes lechyd a gofal yng Nghymru.
Welsh Government – Services fit for the future – Quality and Governance in health care in Wales.

Dŵr Cymru – Gwahoddiad i Agoriad Gweithfeydd Trîn Dŵr Alaw & Cefni.
Welsh Water – Invitation the Alaw & Cefni Treatment Works Opening.

Grid Cenedlaethol – Adnewyddu'r llinell uwchben rhwng Tregele a'r Fali.
National Grid – Tregele to Valley overhead line refurbishment.

CSYM – Gwahoddiad i ymgynghoriad Llyfrgelloedd.
IOACC – Invitation to Library Consultation.

CCMôn: CDLl ar y Cyd Gwynedd a Môn – Adroddiad yr Arolygwr.
Joint LDP Anglesey & Gwynedd – Inspector's Report.

CSYM – Sesiwn Holi i Mewn i drafod Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgelloedd.
IOACC – Consultation on the Draft Library Service Strategy.

7.2 Nodwyd dylai ebyst gan y CSYM fod yn ddwyieithog, nid un iaith.

Gweithred – Ysgrifennu ebôst i CSYM yn dweud bod ei ebyst i fod yn ddwyieithiog.

It was noted that the emails from the IOACC should be bilingual.

Action – Write an email to IOACC stating that emails should be bilingual.

8 Biliau / *Bills*

8.1 Derbynwyd biliau a cymeradwyo i'w talu (drwy BACS os yn bosib) / B*ills were received and approved for payment (via BACS if possible):*

- Ysgol Gymuned Carreglefn (Llogi Ystafell / *Hire of room)* - **£30.00**
- ROPSA (Arolygaeth Blynyddol y maesydd chwarae / *Annual Inspection of the playing areas)* - ***£180.60***
- H M Hughes (Taliad 3 mis y Clerc / *The Clerk's 3 month wages)* - ***£530.42***
- HMRC (3 mis PAYE *3 months)* - ***£116.80***

8.2 Derbynwyd arian gan / *Monies were received from:*

- CSYM / *IOACC* (Ad-daliad cynnal llwybrau cyhoeddus / *Reimbursement of maintaining public footpaths)* - **£320.00**

9 Cynllunio / *Planning*

9.1 Dim ceisiadau cynllunio / *No planning applications.*

9.2 Gofynnwyd y Cynghorwyr os oedd unrhyw ddiweddariad ar cais cynllunio Stad Pen y Bont ac y Fferm Paneli Solar.

Gweithred – Ysgrifennu ebôst i'r Adran Gynllunio a copio y Cynghorydd Llinos Medi Huws iddo.

The Councillors asked if there was any update on the Pen y Bont Estate planning application and the Solar Farm.

Action – Write an email to the Planning Department and copy Councillor Llinos Medi Huws.

10 **Unrhyw Fater Arall / *Any Other Business***

10.1 Heddlu – Fe nodwyd nad oedd yr Heddlu wedi mynychu cyfarfod y Cyngor Cymuned ers amser hir.
Gweithred – Y Clerc i yrru gwahoddiad.
Police – It was noted that the Police have not attended Community Council meetings for quite some time.
Action – The Clerk to send an invitation.

11 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / *Date of Next Meeting***

Mi fydd y cyfarfod llawn nesaf yn cael ei gynnal ar nos Lun Medi 11 2017, am 7 o'r gloch yn Caffi Siop Mechell, Llanfechell.
The next full council meeting will be held on Monday evening September 11 2017 for 7pm at Mechell Café Shop, Llanfechell.

Arwyddwyd / *Signed*

Cadeirydd / *Chair* ……

Dyddiad / *Date* ……